



## Amcan Llesiant 10

Heneiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

### Sut y byddwn yn gwneud hyn?

### Ein cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni'r amcan hwn

(Mae'r uwcholeuo lliw lemwn yn golygu nad hwn yw prif amcan y Cam neu'r Mesur)

Cyf	Camau Gweithredu a Mesurau	Targed
<b>A</b>	Byddwn yn parhau i wella ein 'seilwaith' Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol integredig er mwyn sicrhau ein bod yn gallu hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn yn effeithiol ac yn effeithlon, gan gynnal ar yr un pryd anghenion gofal tymor hir a diogelu y rhai mwyaf bregus ac agored i niwed.	
1	Moderneiddio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth newydd yn ogystal ag amcanion strategol yr Adran Cymunedau (CSC) a Chynllun Tymor Canolig Integredig Hywel Dda. <i>(Cam gweithredu hefyd yn Amcan Llesiant 9)</i>	Ebrill 2018
2	Byddwn yn parhau i anelu at leihau cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty tra byddant yn aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed <i>(SCA/19 oedd PAM/025)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 43 cleient - cyfradd 2.30)</i>	42 o gleientiaid 2.24
<b>B</b>	Byddwn yn darparu ystod eang o wasanaethau ac ymyriadau ar draws y tri maes 'cynnig' a amlinellir yn nogfen Cyngor Sir Caerfyrddin, 'Darparu Gwasanaethau Cynaliadwy i Bobl Hŷn yn Sir Gaerfyrddin'.	
1	Byddwn yn gwneud cynnydd o ran comisiynu gofal tymor hir yn ddarbodus gan ddefnyddio rheoli proffesiynol a rheoli perfformiad effeithiol	Ebrill 2018
2	Byddwn yn monitro'r amser cyfartalog y mae oedolion (65 oed neu hŷn) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal preswyl <i>(SCA/21)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 989 diwrnod)</i>	Dim targed wedi'i bennu
3	Byddwn yn comisiynu'n effeithiol ymyriadau ac asesiad tymor byr i fwyhau deilliannau annibyniaeth a llesiant ar gyfer ein poblogaeth	Ebrill 2018
4	Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant eu poblogaeth. <i>(Hefyd yn Amcanion Llesiant 9 ac 11)</i>	Ebrill 2018
<b>C</b>	Byddwn yn clustnodi sut y bydd cymunedau lleol yn gallu cyfrannu at gefnogi llesiant ac annibyniaeth <i>(Hefyd gweler Amcan Llesiant 9 - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, teulu a chymunedau mwy diogel)</i>	
1	Gall pawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn, gael llais – cyfle – hawl – i gael ei glywed fel unigolyn, fel dinesydd, i lywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i gleientiaid a ydynt yn fodlon ar eu gofal a'u cefnogaeth. Dangosodd arolwg 2016/17 fod 83.2% yn fodlon. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. <i>(PAM024)</i>	Dim targed wedi'i bennu
2	Fel rhan o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant newydd, gofynnir i ofalwyr a ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i ddal ati â'u rôl ofalu. Dangosodd arolwg 2016/17 fod 78.5% yn teimlo eu bod yn cael hynny. Fe wnawn bopeth o fewn ein gallu i wella hyn. <i>(PAM/026)</i>	Dim targed wedi'i bennu
<b>D</b>	Rydym yn gwneud gwaith addasu cost isel mewn preswylfeydd preifat mor gyflym â phosibl.	
1	Byddwn yn parhau i leihau nifer y diwrnodau calendr a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl <i>(PSR/002 oedd PAM/015)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 167 diwrnod)</i>	165 diwrnod